**Maen Hir s51 Translation Miscellaneous Provisions**

(Email Subject) - Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol (MP)) 2024 – Ymgynghoriad Adran 42

Annwyl Anna,

Daeth Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol (DA)) 2024 i rym ar 30 Ebrill 2024 ac maent yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig (CFGR)) 2009. Mae'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 4 o'r Rheoliadau DA 2024 yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau CFGR a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn berthnasol i unrhyw gais arfaethedig am orchymyn caniatâd datblygu lle mae'r ymgeisydd wedi dechrau ymgynghori o dan Adran 42 o'r Ddeddf Cynllunio 2008 cyn 30 Ebrill 2024. Mae'r Arolygiaeth yn cysylltu â chi gan ei bod yn deall nad oedd ymgynghoriad dan Adran 42 ar gyfer Prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir wedi dechrau cyn 30 Ebrill 2024.

Hoffai'r Arolygiaeth eich hysbysu fod oherwydd cafodd y cais barn gwmpasu ar gyfer Prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir ei dderbyn cyn 30 Ebrill 2024, ni fydd y rhestr o gyrff ymgynghori a hysbyswyd ac ymgynghorwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio cyn mabwysiadu'r farn gwmpasu (fel y nodir yn 'rhestr Rheoliad 11' a ddarperir i'r Ymgeisydd yn unol â Rheoliad 11(1)b o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA)) 2017) yn adlewyrchu'r diwygiadau diweddar i'r Rheoliadau CFGR. Cynghorir yr Ymgeisydd felly i adolygu'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 4 o Reoliadau DA 2024, ynghyd â'r diwygiadau i'r Rheoliadau CFGR, ac ystyried a ddylid cynnwys unrhyw gyrff ymgynghori newydd neu wahanol yn yr ymgynghoriadau ar gyfer y prosiect. Sylwch mai cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw sicrhau bod eu hymgynghoriad yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Cynllunio 2008 a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae'r rhestr Rheoliad 11 wedi'i llunio gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei dyletswydd i hysbysu'r cyrff ymgynghori yn unol â Rheoliad 11(1)(a) o'r Rheoliadau AEA ac, er y gall hysbysu ymgynghoriad yr Ymgeisydd ei hun, ni ddylid dibynnu arno i'r pwrpas hwnnw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi cyn cysylltu.

Cofion cynnes,

Jake